

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU - HYSBYSIAD O FUSNES

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

PAPURAU BUSNES

Rhan 1 – Adran F

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd 18 May i'w hateb ddydd 25 May.

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

I ofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad;

9. Jonathan Morgan (Canol De Cymru) : A fydd Gweithrediaeth RhaglenEwropeaidd Cymru yn gweinyddu'r rhaglenni cyllido Ewropeaidd newydd ar ôl 2000. **(OAQ32VB)**

10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) : A yw'n ymwybodol o gynnigcyfredol gan barth gweithredu addysg sy'n cynnwys dwy ysgol o Gymru, ac a fydd ef yncynnig sylwadau

ynglŷn ag a yw hyn yn gynnig i gyflwyno parthau gweithredu addysg yng Nghymru . [R]
(OAQ33VB)

11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) Pa symiau o arian sydd wedi eudyrannu i (a) bob Awdurdod Iechyd a (b) bob Ymddiriedolaeth NHS? Ar ba ddyddiad y bydd yr Awdurdodau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd yn derbyn y dyraniad hwn? (OAQ34VB)

12. Michael German (Dwyrain De Cymru): Pa drefniadau y mae'n bwriadu eu gwneudi gynorthwyo Aelodau o'r Cynulliad i ddysgu Cymraeg? [R] (OAQ35VB)

13. Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr): Beth yw ei bolisi i sicrhau bod cyrchfannautwristiaeth megis Porthcawl yn gymwys i dderbyn cyllid Amcan Un er mwyn datblygu cyfleusterau twristiaeth a hamdden o'r radd flaenaf (OAQ36VB)

14. Helen Mary Jones (Llanelli); A fydd yn trefnu bod y Strategaeth Genedlaetholddrafft ar ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gael i Aelodau'r Cynulliad cyndiwedd mis Mai. (OAQ37VB)

15. Helen Mary Jones (Llanelli); A fydd yn rhoi manylion am ei gynlluniau iddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE, ac a fydd yn gosod y cynlluniau hyn gerbron y Cynulliad?. (OAQ38VB)

16. Pauline Jarman (Canol De Cymru); A fydd yn gwneud datganiad ar sefyllfa ariannol gyfredol Awdurdod Iechyd Bro Taf ac yn darparu ffigurau ariannol manwl. (OAQ39VB)

17. Pauline Jarman (Canol De Cymru); A all ef roi manylion ynglŷn â nifer y bobl oleiafrifoedd ethnig sydd wedi derbyn cyfweiliadau am benodiadau cyhoeddus yn ystod ydeuddeng mis diwethaf. (OAQ40VB)

18. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Sut y mae'n bwriadu sicrhau ybydd taliadau ar gael o gronfeydd Ewropeaidd ar gyfer tyfu cnydau egni ar dir glas. [R](OAQ41VB)

19. Rod Richards (Gogledd Cymru); Pa gynrychioliadau y mae wedi eu cael ar gyfer codi ysbyty plant yng Nghymru. (OAQ43JS)

20. Rod Richards (Gogledd Cymru); Pa gynlluniau sydd ganddo i godi ysbyty plant yng Nghymru. (OAQ44JS)

21. Phil Williams (Dwyrain De Cymru); Pa gynlluniau sydd ganddo i gynnwys ffordd osgoi Cwm Glynebwy yn rhaglenni ffyrdd Cymru . (OAQ45JS)

22. Dafydd Wigley (Caernarfon); Pa gamau fydd ei Adran yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod cyfran uchel o'r ymgymerydd a'r gweithwyr ar gynllun adeiladu ffordd osgoi Llanllyfni ar yr A487 yn weithwyr lleol. (OAQ47JS)

23. Dafydd Wigley (Caernarfon) A wnaiff ef gyhoeddi manylion o'r broses ymgynghori ar strategaeth genedlaethol ar gyfer defnyddio cronfeydd strwythurol Ewrop er mwyn sicrhau bod ceisiadau o fewn amserlen y Comisiwn Ewropeaidd, tra'n caniatáu cyfranogaeth gyhoeddus lawn a dadl ddigonol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ48JS)

24. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr); Pa astudiaeth a wnaed ganddo o effaith andwyol y codiadau mewn treth ar danwydd ar gysylltiadau a datblygiadeconomaidd yn Ne-Orllewin Cymru ac yn arbennig yn etholaeth Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr? (OAQ49JS)

25. Brian Hancock (Islwyn); A fydd yn cymryd camau i sicrhau na fydd y cyfrywgynigion yn y Papur Gwyrdd 'Y Gorau ar Gyfer Dysgu ac Addysgu' sy'n cyfeirio at werthuso athrawon a'r cyswllt â chyflogau yn cael eu mabwysiadu ym mis Medi 1999. [R] (OAQ50JS)

26. Brian Hancock (Islwyn); A fydd yn cymryd camau i bwysu ar unwaith am gyllid cyfatebol ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd o ystyried ei ddatguddiad na eiri'r afael â'r mater o gyllid cyfatebol ar gyfer Cymru tan gylch nesaf yrasesiad gwariant safonol, ac a fydd yn gwneud datganiad. (OAQ51JS)